TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# City & Guilds Diploma NVQ mewn Trin Gwallt (Oedolion) Lefel 3



**Yn gryno**Cynhelir y diploma yn eich gweithle a choleg, lle bo'n angenrheidiol. Nid yn unig y mae hwn yn gam perffaith yn eich gyrfa trin gwallt, ond mae hefyd yn rhoi amrywiaeth o sgiliau hanfodol i'ch helpu i ddatblygu eich gyrfa.

**Dyma'r cwrs i chi os......**brentisiaethau trin gwallt sydd am wella eu sgiliau a datblygu'n uwch steilydd.

**Beth fyddaf yn ei wneud?**Fel arfer, fe gymer y City & Guilds Diploma Lefel 3 mewn Trin Gwallt

8 mis i'w gwblhau, ac mae'n ymdrin â nifer o bynciau gorfodol a dewisol, gydag asesydd yn ymweld i gwblhau asesiadau yn y gweithle ac adolygiadau cynnydd.

Y pynciau gorfodol yw:

Darparu gwasanaethau ymgynghori ar drin gwallt
Hyrwyddo gwasanaethau ychwanegol neu gynhyrchion i gwsmeriaid

Torri gwallt yn greadigol gan ddefnyddio cyfuniad o dechnegau
Monitro gweithdrefnau i reoli gweithrediadau gwaith yn ddiogel

Gall pynciau dewisol gynnwys:

Lliwio gwallt gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau
Triniaethau gwallt a chroen y pen
Gwasanaethau cywiro lliw
Gwasanaethau ymestyniadau gwallt creadigol
Steilio a gwisgo gwallt yn greadigol
Gwasanaethau ymgynghori arbenigol i gyflyrau gwallt a chroen y pen
Gwisgo gwallt hir yn greadigol
Datblygu a gwella sgiliau trin gwallt yn greadigol
Cyfrannu at effeithiolrwydd ariannol y busnes
Creu amrywiaeth o effeithiau a bermiwyd
Cyfrannu at gynllunio a gweithredu gweithgareddau hyrwyddo
Cefnogi gwella gwasanaeth i gwsmeriaid.

Hefyd, mae'r cwrs yn cynnwys amrywiaeth o gymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru (SHC) a fwriadwyd i'ch helpu i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnoch i wneud y gorau o'ch dysgu, eich gwaith a'ch bywyd. Maent yn cynnwys:

Cymhwyso Rhif Lefel 2 – bydd y cymhwyster hwn yn eich helpu i wella eich sgiliau rhif, gan gynnwys rhoi dealltwriaeth o ddata rhifiadol i chi, gwneud cyfrifiadau, dehongli canlyniadau a chyflwyno canfyddiadau.
Cyfathrebu Lefel 2 – bydd hwn yn eich helpu i wella eich sgiliau cyfathrebu wrth siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu.
Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) Lefel 1 – fe'i bwriadwyd i wella eich sgiliau TGCh, gan gynnwys canfod, dewis a chyfnewid gwybodaeth a datblygu a chyflwyno gwybodaeth.
Pan fyddwch chi wedi cwblhau'r cwrs yma, gallech symud ymlaen i Lefel 4 mewn Rheolaeth Salon, neu gyrsiau perthnasol tebyg i therapi Harddwch neu Golur Theatrig a'r Cyfryngau.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Fel amod o'ch lle ar y cwrs hwn, bydd disgwyl i chi brynu'r offer priodol oddi wrth ein cyflenwr cymeradwy. Y gost am hyn yw tua £140, yn amodol ar gynnydd mewn prisiau chwyddiant.

I adlewyrchu disgwyliadau'r diwydiant, bydd gofyn i chi wisgo gwisg salon Coleg Gwent y gellir

ei harchebu oddi wrth ein cyflenwr cymeradwy. Gellir cael manylion ar sut i archebu eich gwisg salon am ddim, a setiau ychwanegol, yn ogystal ag opsiynau talu'r cyflenwyr, oddi wrth eich Pennaeth Ysgol, Darlithydd neu Dechnegydd. Y pris ar gyfer 2024/2025 yw £45, yn amodol ar gynnydd mewn prisiau chwyddiant.

Gall fod costau ychwanegol yn ystod y flwyddyn ar gyfer ymweliadau addysgol.

Mae'r holl gostau yn cael eu hadolygu a gallent newid.